## TERMAU ALLWEDDOL

| Termau | Diffiniadau |
|---|---|
| **Cylchred Oes Adeilad** | Y camau mae adeiladau neu strwythurau arall yn mynd trwy yn ystod ei oes o ddiffiniad strategol i ddymchwel. |
| **Cynllun Gwaith RIBA** | Cynllun arweiniol sy'n trefnu'r broses o friffio, dylunio, darparu, cynnal, gweithredu a defnyddio adeilad yn wyth cam. |
| **Caffael** | Y broses o brynu nwyddau neu wasanaethau. Fel arfer, caiff gwaith adeiladu ei brynu drwy system dendro neu wneud cais am y gwaith. |
| **Isadeiledd/Seilwaith** | Y cyfleusterau, y gwasanaethau a'r gosodiadau sylfaenol sydd eu hangen er mwyn i gymuned neu gymdeithas allu gweithredu. |
| **Wal Geudod** | Wal wedi'i ffurfio gyda haen strwythurol fewnol a haen neu ddalen allanol, mewn gwaith maen, wedi'i gwahanu gan geudod. |
| **Ffrâm Porthol** | Fel arfer, ffrâm un llawr, rhychwant clir gyda cheibrenni dwbl, bas, ar ongl wedi'u hategu gan golofnau, ar blatiau gwaelodol ar sylfeini pad. |
| **Ffrâm Sgerbwd** | System o golofnau a thrawstiau cysylltiol sy'n cynnal y lloriau mewnol a’r waliau allanol ac sy'n cario pob llwyth i'r sylfeini. |
| **Paneli Strwythurol wedi'u Hinswleiddio (SIPs)** | Paneli cyfansawdd parod gyda deunydd insiwleiddio wedi'i wasgu rhwng wynebau strwythurol. |
| **Pensaer** | Gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am ddylunio cynllun ac estheteg adeiladau a datblygu'r agweddau technegol ar eu hadeiladu. |
| **Cynllunydd Trefol** | Gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am gydbwyso'r galwadau ar dir am dai, busnes, trafnidiaeth a hamdden gydag anghenion pobl a chymdeithas. |
| **Peiriannydd Sifil** | Gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli prosiectau seilwaith fel ffyrdd, pontydd a stadiwms chwaraeon. |
| **Peiriannydd Strwythurol** | Peiriannydd sifil sy'n arbenigo mewn dylunio a manylu ar elfennau strwythurol adeiladau a phrosiectau peirianneg sifil. |

| Termau | Diffiniadau |
|---|---|
| **Syrfëwr Siartredig** | Mae syrfëwr adeiladau/tir yn weithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am fesur ac asesu cyflwr ased/tir adeiledig y bwriedir ei ddatblygu. |
| **Syrfëwr Meintiau** | Gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am reoli cost a chyllideb prosiect adeiladu o'r dechrau i'r diwedd. |
| **Peiriannydd Gwasanaethau  Adeiladu** | Gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am ddylunio a manyleb gosodiadau gwasanaeth. |
| **Rheolwr Prosiect** | Gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am oruchwylio pob agwedd ar brosiect adeiladu, gan gynnwys rhaglenni gwaith a chaffael llafur a deunyddiau. |
| **Rheolwr Safle** | Yn gyfrifol am drefnu gwaith ar y safle, gan sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n ddiogel, i'r safon, ar amser ac o fewn y gyllideb. |
| **Adeiladu Modiwlar** | Adeiladau a adeiladwyd gan ddefnyddio rhannau modiwlaidd parod fel paneli wal, fframiau, drysau a chladin allanol. |
| **Busnesau Bach a Chanolig (SMEs)** | Mentrau sydd â llai na 250 o weithwyr, sy'n cynnwys dros 90% o fusnesau'r DU, gan gynnwys y rhan fwyaf o gontractwyr ac ymgynghorwyr adeiladu'r DU. |
| **Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)** | Corff cyhoeddus ac elusen a ariennir gan y diwydiant adeiladu gyda'r bwriad o sicrhau bod cyflenwad digonol o bobl hyfforddedig a chymwys ar bob lefel o fewn y diwydiant, gan ganolbwyntio'n bennaf ar brentisiaethau a datblygu gyrfaoedd. |
| **Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO)** | Sefydliad sy'n gyfrifol am gyhoeddi safonau rhyngwladol ('y ffordd orau o wneud rhywbeth'), gan gynnwys safonau ISO ar gyfer Rheoli Ansawdd Amgylcheddol ac Ynni ac Iechyd a Diogelwch. |
| **Rheoliadau Adeiladu** | Mae rheoliadau adeiladu yn safonau gofynnol ar gyfer dylunio, adeiladu ac addasu adeiladau a ddatblygir gan y llywodraeth. Cefnogir y rheoliadau gan ddogfennau cymeradwy sy'n nodi canllawiau ymarferol manwl ar gydymffurfio â'r rheoliadau. |
| **Adeiladu Cyfeintiol** | Adeiladau sy'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio nifer fawr o fodiwlau ailadroddus, megis ystafelloedd gwesty wedi'u hadeiladu mewn ffatrïoedd, ac yn cael eu darparu wedi'u cwblhau tu mewn gan gynnwys ffitiadau a dodrefn. |
| **Archwiliad Safle** | Ymchwilio i briodweddau isbridd ac amodau tir i benderfynu a yw'r safle'n addas, math a dyfnder y sylfeini sydd eu hangen a graddau unrhyw welliannau tir sy'n angenrheidiol. Bydd yr ymchwiliad yn cynnwys ymchwil desg a phrofi amodau'r tir ar y safle. |

| Termau | Diffiniadau |
|---|---|
| **Sylfeini** | Elfennau strwythurol sy'n trosglwyddo llwythi adeiladu i'r haenau isbridd neu graig sydd â digon o gynhwysedd dal a nodweddion setlo i'w cynnal. |
| **Sylfeini Postyn** | Sylfeini dwfn a ffurfiwyd gan elfennau hir, colofnog, wedi'u gwneud o ddur neu goncrit wedi'i atgyfnerthu, a ddefnyddir i drosglwyddo llwythi o uwch strwythurau, drwy isbridd anaddas i bridd cryfach neu graig ddofn. |
| **Wal Gynnal** | Strwythurau fertigol sydd wedi'u cynllunio i gadw neu ddal deunydd yn ôl ar un ochr, gan ei atal rhag dymchwel. |
| **Lintel** | Darn strwythurol a ddefnyddir i rychwantu agoriad mewn wal, fel arfer dros ffenestr neu ddrws. |
| **Cladin** | Gorchudd strwythur ffrâm sy'n cyflawni swyddogaethau an-adeileddol wal allanol. |
| **Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM)** | Y system 3D ddeallus sy'n seiliedig ar fodelau ar gyfer dylunio a rheoli adeiladau ar y cyd. |
| **Adnewyddu** | Y broses o wella drwy lanhau, addurno, trwsio, a gwneud adeilad yn fwy effeithlon o ran ynni ac yn fwy cynaliadwy. |
| **Datblygu a Ganiateir** | Newid defnydd ac addasiadau i eiddo sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys estyniadau bach, nad oes angen i'r awdurdod cynllunio lleol eu cymeradwyo. |
| **Cyfleustodau** | Gwasanaethau seilwaith a gyflenwir i ddefnyddwyr cyhoeddus sy'n cynnwys trydan, nwy, dŵr, gwasanaethau cyfathrebu a system ddraenio ar gyfer cael gwared ar garthffosiaeth. |
| **Draenio Cyfun** | System lle mae pob draen yn trin dŵr budr a dŵr wyneb. |
| **Draenio ar Wahân** | System lle mae dŵr budr a dŵr storm yn cael eu trin gan wahanol ddraeniau. |
| **Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS)** | Systemau, yn seiliedig ar amrywiaeth o dechnegau, ar gyfer rheoli draenio dŵr wyneb mewn ardaloedd trefol gyda'r bwriad o osgoi llygredd a lleihau llifogydd. |